


WEDINOS:
Philtre Ebrill 2024 – Mawrth 2025



Diazepam



Cocên



MDMB-4en-PINACA

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Y Prif Ffigurau

- Y cyfanswm hyd yn hyn (Lansiad y prosiect 1 Hydref 2013 i 31 Mawrth 2024):
- Dros 53,000 o samplau wedi dod i law
- Bron 47,000 wedi'u dadansoddi
- Dros 650 o sylweddau wedi'u hadnabod naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad.
- Samplau wedi dod i law oddi wrth fwy na 300 o sefydliadau a gwasanaethau
  - Roedd y rhain yn cynnwys: Adrannau Brys, Timau Iechyd Lleol, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Tai a Digartrefedd, Canolfannau Addysg, Darparwyr Hyfforddiant, Lleoliadau'r Economi Liw Nos (NTE), Gwyliau, Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol a Charchardai Cymru
  - Darperir samplau hefyd gan unigolion nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau
- / yn cael mynediad at wasanaethau
-
- Eleni (2024-2025):
- 9,784 o samplau wedi dod i law, sef cynnydd o 8,466 yn 2023/24.
  - 8,032 wedi'u dadansoddi, **I FYNY** o 7,064
- Samplau cymunedol wedi cynyddu i 6,894 o 5,793
  - 211 o sylweddau wedi'u hadnabod, **I FYNY** o 206
  - Samplau wedi dod i law oddi wrth 103 o sefydliadau, gwasanaethau a lleoliadau'r Economi Liw Nos (NTE) gwahanol, yn ogystal ag oddi wrth unigolion
  - Oed canolrifol y rhai sy'n darparu samplau yw 35 oed (amrediad rhwng 11 ac 87 oed)
  - Fel yn y saith mlynedd blaenorol, bensodiasepinau oedd y dosbarth mwyaf cyffredin o sylweddau seicoweithredol gyda 22 o bensodiasepinau wedi'u hadnabod, i fyny o 19 y llynedd.
- **Cocên** oedd y sylwedd a nodwyd amlaf drwyddi draw
- Y sylwedd a nodwyd amlaf yn y gymuned oedd
- **diazepam**, ac yna **cocên,** yna **bromazolam**
- Cocên oedd y sylwedd a nodwyd amlaf yn yr NTE
- Lleoliadau cyfiawnder troseddol – y Gweithydd Derbynnydd Canabinoid Synthetig (SCRA) **MDMB-4en-PINACA** oedd y sylwedd a nodwyd amlaf

WEDINOS: Siwrnai sampl: Rhwng dod i law a chyhoeddi

Siwrnai sampl WEDINOS

Mae samplau'n cyrraedd labordy WEDINOS bob dydd yn ystod yr wythnos waith. Mae'r samplau'n cael eu hagor mewn sypiau. Mae'r samplau'n cael eu hagor yn ddiogel drwy broses echdynnu allanol, gan eu bod yn sylweddau 'anhysbys'. Pan agorir sampl, mae ffotograff yn cael ei dynnu yn gyntaf. Yna mae gwybodaeth o ffurflen gyflwyno WEDINOS, megis y bwriad wrth brynu ac effeithiau a hunan-adroddwyd, yn cael ei rhoi ar system gyfrifiadur y labordy, ac mae hyn hefyd yn cael ei uwchlwytho i'r wefan ynghyd â'r ddelwedd a chanlyniadau'r dadansoddiad ar ôl ei gwblhau.

Yn nesaf cymerir cyfran fach o'r sampl a'i rhoi mewn tiwb echdynnu. Cymerir gofal i sicrhau bod tabledi'n cael eu malu a'u cymysgu cyn eu samplu, a bod unrhyw bowdrau, deunydd planhigion neu hylifau hefyd yn cael eu cymysgu i sicrhau bod y gyfran a gymerir i'w dadansoddi yn gynrychioliadol o'r sampl gyfan. Ychwanegir toddydd at y tiwb echdynnu ac yna caiff y tiwb ei gymysgu'n egnïol (sy'n cael ei alw'n gymysgu fortecs) i sicrhau bod yr holl ddadansoddion yn y sampl yn cael eu hechdynnu i'r toddydd. Mae'r sampl bellach yn barod i fynd ar y dadansoddwr.


Mae'r dadansoddiad labordy o samplau WEDINOS yn cael ei gyflawni ar ddadansoddwr Amser Ehedeg Pedrypol Cromatograffig Hylif (LC-QTOF). Nod y dadansoddwr hwn yw gwahanu'r holl ddadansoddion gwahanol rydyn ni'n eu hadrodd mewn samplau WEDINOS oddi wrth ei gilydd fel y gallwn adrodd cynnwys y sampl yn gywir. Mae'r dadansoddwr yn cyflawni hyn mewn dwy ffordd. Y gyntaf yw trwy wahanu'r cemegion yn yr LC. Mae'r dadansoddion yn y toddydd yn rhyngweithio'n wahanol â'r golofn LC ac yn cael eu hechludo o'r golofn ar wahanol adegau gan ddibynnu ar eu priodweddau cemegol.

Yn ail, mae rhan QTOF y dadansoddwr yn gwahanu'r dadansoddion a echludwyd ar sail eu màs. Cyfrifir y màs o'r holl garbonau, hydrogenau, nitrogenau etc sy'n ffurfio strwythur craidd y sylwedd. Gall y QTOF nodi màs cyffuriau gwahanol yn gywir iawn i 4 lle degol. Mae'r QTOF hefyd yn darnio'r dadansoddyn ar ôl iddo fesur ei fàs, ac mae patrwm y darnau yn benodol iawn i'r cyffur.

Unwaith y bydd yr amser echludo, y màs cywir a'r darnau wedi'u canfod, cânt eu cymharu â chronfa ddata/llyfrgell o 1800 o ddadansoddion. Adroddir ar bob cyfatebiaeth gadarnhaol. Os oes ganddyn nhw signal cryf iawn, cânt eu hadrodd fel 'elfen fawr', os oes ganddyn nhw signal gwannach, cânt eu hadrodd fel ' elfen fach'.

Mae gwyddonydd hefyd yn adolygu canlyniadau pob sampl am ddadansoddion newydd nad ydynt yn cyfateb i'r llyfrgell ac yn ymchwilio i hyn ymhellach. Rydym yn defnyddio technegau fel FTIR (sbectrosgopeg is-goch trawsnewid Fourier) ac NMR (cyseiniant magnetig niwclear) i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am strwythur y dadansoddyn newydd er mwyn cyfrifo ei fformiwla gemegol. Ar ôl cadarnhau, rydym yn adrodd y cyfansoddion newydd i wefan WEDINOS, ac maent yn cael eu hychwanegu at ein llyfrgell LC-QTOF. Weithiau rydym yn adrodd am gyfansoddion newydd i UNODC (Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu) os yw'n newydd i'r DU.

Y pethau allweddol i'w cofio yw mai dim ond os gellir canfod cyffur mewn LC-QTOF ac os yw'n gyffur seicoweithredol y byddwn yn ei adrodd. Nid ydym yn defnyddio unrhyw dechnegau ychwanegol heblaw'r rhai a restrir uchod, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn negyddol. Bydd yn cael ei adrodd fel 'dim cydran weithredol wedi'i nodi'.



Persbectif ehangach....

Amcangyfrifon y Byd, Ewrop, Cymru a Lloegr, a Chymru:

Hydref 2024 oedd 11eg pen-blwydd lansio rhaglen WEDINOS, ynghyd â derbyn, dadansoddi a chyhoeddi canlyniadau'r sampl gyntaf. Powdr gwyn anhysbys oedd y sampl hon, a gyflwynwyd trwy wasanaeth cyffuriau cymunedol.

Datgelodd y dadansoddiad ei fod yn cynnwys para-cloroamffetamin, amffetamin, N-ethylnorcetamin, a bensococên, oedd wedi achosi effeithiau annisgwyl gan gynnwys gwaedu o'r trwyn, iselder ysbryd, a meddyliau hunanladdol.

Ers hynny, mae WEDINOS wedi monitro tueddiadau cyffuriau ledled y DU gan rannu gwybodaeth gyda phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a derbyn data ganddynt er mwyn darparu gwybodaeth amserol a phragmatig am leihau niwed i bobl sy'n defnyddio cyffuriau a'r rhai sy'n ymwneud â'u gofal.

Mae WEDINOS yn bwydo data'r farchnad cyffuriau yn rheolaidd i ystod eang o wasanaethau, o wasanaethau cyffuriau lleol i aelodau Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yng Nghymru, System Rhybuddion Cyffuriau Genedlaethol y DU, y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau, y prosiect Gwybodaeth Cyffuriau Traws-Ewropeaidd, a Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Gyffuriau a Throseddu (UNODC), ymhlith eraill.

Yn fyd-eang, mae Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Gyffuriau a Throseddu (UNODC) yn adrodd bod yr amcangyfrif o nifer y bobl oedd yn defnyddio cyffuriau ledled y byd wedi cyrraedd 316 miliwn yn 2023, cynnydd o 28 y cant mewn degawd; sef rhyw 6% o boblogaeth y byd rhwng 15 a 64 oed. Mae hyn yn gynnydd o 5.2 y cant yn 2013. Amcangyfrifir bod gan fwy na 64 miliwn o bobl yn fyd-eang anhwylderau defnyddio cyffuriau, cynnydd o 18 y cant ers 2013.

Amcangyfrifir bod nifer y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau yn fyd-eang tua 14 miliwn, sef 0.27 y cant o'r boblogaeth.

Amcangyfrifir bod 64 miliwn o bobl ledled y byd yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu angen gwasanaethau triniaeth, ond mai dim ond rhyw un o bob deuddeg sy'n cael triniaeth o'r fath.

Y gyfran fwyaf o'r unigolion hyn yw pobl sy'n cael triniaeth ar gyfer opioidau, ac wedyn sylweddau tebyg i amffetaminau a chanabis (1).

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod nifer y marwolaethau o glefydau y gellir eu priodoli i gyffuriau yn 2019 ar gyfer yr holl gyffuriau seicoweithredol, bron yn 600,000 o farwolaethau, gyda marwolaethau drwy opioidau yn cyfrif am ychydig o dan 450,000 o'r rhain(2).

Yn y **Deyrnas Unedig**, dywedodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2023 (3) fod tua 2.9 miliwn o bobl, neu 8.8 y cant o'r oedolion rhwng 16 a 59 oed, wedi cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y cyffredinrwydd ar ei uchaf ymhlith pobl ifanc, gydag 16.5 y cant o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn dweud eu bod wedi cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Canabis o hyd yw'r sylwedd a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn y DU, ac mae hyn yn wir ers i'r cofnodion ddechrau ym 1995. Doedd dim newid ystadegol arwyddocaol yng nghyffredinrwydd defnyddio cocên, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2.1 y cant o bobl 16 i 59 oed).

Arhosodd defnydd MDMA yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, ochr yn ochr â defnydd rhithbeiriau.

1) UNODC, World Drug Report 2025 (United Nations publication, 2025); https://www.unodc.org/unodc/en/data-and-analysis/world-drug-report-2025.html
2) Global status report on alcohol and health and treatment of substance use disorders. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd; 2024.
3) Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), wedi'i rhyddhau 12 Rhagfyr 2024, gwefan yr SYG, erthygl, Drug misuse in England and Wales: year ending March 2024

Persbectif ehangach….parhad…

- **Darlun o Gymru**
- Mae'r adran ganlynol yn defnyddio data o adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Cloddio Data Cymru:
- Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023-24'
- Mae'r prif ffigurau dros dro ar gyfer amcangyfrifon o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru,* gan gynnwys poblogaethau nad ydynt mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu bod cyfanswm o 51,110 (cyfwng hyder o 95% (CI) 38,100 – 68,340)(4) o ddefnyddwyr cyffuriau problemus yn 2020-21.
- Cafwyd 15,959 o asesiadau (14,565 o unigolion unigryw) mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2023-24, sef gostyngiad o 8.8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17,502 o asesiadau). O'r unigolion a aseswyd:
- Roedd 6,748 (46.3 y cant) yn gleientiaid ag alcohol yn brif broblem iddynt
- Roedd 6,336 (43.5 y cant) yn gleientiaid â chyffuriau yn brif broblem iddynt
- Roedd 1,481 (10.2 y cant) heb sylwedd wedi'i gofnodi ar eu cyfer(4)
- Ymhlith asesiadau ar gyfer defnydd problemus o gyffuriau, nodwyd opioidau fel y prif sylwedd mwyaf cyffredin, sef 2,862 o asesiadau (41.2 y cant). O'r rhain, nododd 2,273 o'r asesiadau mai heroin oedd y prif sylwedd. Canabis oedd y sylwedd a adroddwyd amlaf wedyn, sef 1,347 o asesiadau (19.4 y cant). Cynyddodd nifer yr asesiadau gyda chocên, gan gynnwys crac cocên, fel y prif sylwedd i 1,843 yn 2023-24 ac mae'n cynrychioli 25 y cant o'r holl atgyfeiriadau at wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn 2023-24(4).
- Yng Nghymru, yn gyffredinol, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno â chyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'u henwi wedi gostwng 10.6 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf o 4,347 yn 2022-23 i 3,850 yn 2023-24. Opioidau oedd yn gyfrifol am y nifer uchaf o unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon, ac wedyn canabinoidau.(4)**
- Yn 2023, cofrestrwyd 377 o farwolaethau oherwydd gwenwyno cyffuriau yng Nghymru, cynnydd sylweddol o 18.6 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol. O blith yr holl farwolaethau drwy wenwyno cyffuriau, nodwyd 253 (67.1 y cant) fel marwolaethau camddefnyddio cyffuriau, sy'n dal yn uchel gyda chynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (4).

* Yn y cyd-destun hwn, diffinnir defnydd cyffuriau problemus (PDU) gan y Ganolfan Monitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau (EMCDDA) fel "defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu neu gyfnod hir neu
ddefnydd rheolaidd o opioidau, cocên a/neu amffetaminau [gan gynnwys sylweddau tebyg i amffetaminau]".
** Mae'n bwysig nodi nad oes modd gwahaniaethu mewn data derbyniadau ysbyty rhwng cynhyrchion canabinoidau: resin canabis, mathau cryfach o ganabis llysieuol 'sgync'; neu fathau newydd o weithyddion derbynyddion canabinoidau synthetig (SCRAs), a elwir weithiau'n 'Spice'
4) Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023-24; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Mawrth 2025;
https://phw.nhs.wales/publications/publications1/data- mining-wales-the-annual-profile-for-substance-misuse-2023-2024/

WEDINOS

Adroddiad Dadansoddi Samplau Cyffuriau WEDINOS

Cyfnod adrodd: 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Cyflwyniad

Mae WEDINOS wedi dadansoddi cyfanswm o 8,032 o samplau a gasglwyd o 96 o wasanaethau a lleoliadau ledled y DU, yn ogystal â samplau a gyflwynwyd gan unigolion. Mae'r samplau hyn yn deillio o dri phrif gategori:

- Lleoliadau cymunedol
- Yr Economi Liw Nos (NTE)
- Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol

Mae samplau o'r NTE a Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol yn cael eu casglu'n bennaf o finiau amnest neu ffynonellau na ellir eu priodoli, ac o'r herwydd, nid oes ganddynt wybodaeth fanwl am y bwriad wrth brynu, demograffeg y defnyddwyr, nac effeithiau.

Canfyddiadau allweddol

Sylweddau a nodwyd

- Mae cyfanswm o 8,032 o samplau wedi'u dadansoddi, gan ddatgelu 211 o sylweddau seicoweithredol gwahanol naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad.
- Am y chweched flwyddyn yn olynol, bensodiasepinau yw'r grŵp a nodwyd amlaf, gyda 22 o bensodiasepinau gwahanol wedi'u canfod—cynnydd o'i gymharu ag 20 yn 2021/22. Yn nodedig, ymddangosodd 13 o bensodiasepinau mewn llai na deg sampl yr un.
- Diazepam oedd yr ail sylwedd mwyaf cyffredin a ganfuwyd a'r bensodiasepin mwyaf cyffredin, a nodwy 978 o weithiau, er mai dyma'r bwriad prynu a roddwyd mewn 1,532 o'r samplau.
- Nodwyd bromazolam 616 o weithiau, er mai dim ond 8 gwaith y cafodd ei restru fel bwriad prynu, sy'n awgrymu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml fel dewis arall. O gofio ei gryfder uwch o'i gymharu â diazepam, mae'r amnewid hwn yn cario risg arwyddocaol.
- Cocên oedd y sylwedd seicoweithredol a ganfuwyd yn fwyaf cyffredin drwyddi draw, yn gryf o dan ddylanwad nifer fawr o gyflwyniadau o'r Economi Liw Nos.
    - Nododd Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2024) gyfraddau cyffredinrwydd sefydlog ar gyfer defnyddio cocên powdr ymhlith oedrannau 16–59 (2.1%) a 16–24 (3.8%), gyda defnydd crac cocên ar 0.10% (5).
- I'r gwrthwyneb, mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos cynnydd mewn asesiadau o'r gwasanaethau cyffuriau sy'n gysylltiedig â chocên o 1,582 yn 2019-20 i 1,843 yn 2023-24 (+16.5%), gan gyfrif am 25% o'r holl atgyfeiriadau (6).
- Yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol, caffein yw'r asiant mwyaf cyffredin sy'n cynyddu'r swmp neu'n torri'r cyffur ac fe'i ceir yn aml wedi'i gymysgu â symbylyddion fel amffetamin, MDMA, a chocên. Canfuwyd bod rhai samplau a gyflwynwyd fel MDMA yn cynnwys caffein yn unig.

5) Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), wedi'i rhyddhau 12 Rhagfyr 2024, gwefan yr SYG, erthygl, Drug misuse in England and Wales: year ending March 2024
6) Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023-24; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Mawrth 2025; https://phw.nhs.wales/publications/publications1/data-mining-wales-the-annual-profile-for-substance-misuse-2023-2024/

WEDINOS

2024/2025	2023/2024
Cocên	Cocên
Diazepam	Diazepam
MDMA	MDMA
Bromazolam	Bromazolam
Cetamin	Cetamin
Caffein	Caffein
Alprazolam	Paracetamol
Canabinol	Tetrahydrocanabinol
Tetrahydrocanabinol	Alprazolam
MDMB-4en-PINACA	Heroin

Tabl 1: Y sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf yn samplau WEDINOS.


WEDINOS

Dadansoddiad o Leoliadau Cymunedol

Mae WEDINOS yn cael samplau o amrywiol ffynonellau cymunedol gan gynnwys addysg, gofal iechyd (Adrannau Brys), iechyd meddwl, gwasanaethau tai a digartrefedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac unigolion. Mae cydweithrediadau â charchardai Cymru yn parhau ar gyfer samplau sydd heb werth fel tystiolaeth, ac adroddir ar ganfyddiadau o'r rhain ar wahân.

Demograffeg Samplau

- Cyflwynwyd 6,894 o samplau o leoliadau cymunedol.
- Roedd data demograffig ar gael ar gyfer 94% (6,476 o samplau).
- Ymhlith y rhain, cyflwynwyd 76% gan wrywod a 24% gan fenywod.
- Yr oedran canolrifol ar draws yr holl gyflwynwyr oedd 35 oed (amrediad 11–87), o'i gymharu â 34 oed (amrediad 12–80) yn 2022-23.
- Benywod: oedran canolrifol 36 oed (amrediad 13–75)
- Gwrywod: oedran canolrifol 35 oed (amrediad 11–87)



Siart 1: Proffil demograffig y rhai a ddarparodd samplau seicoweithredol

WEDINOS

Dadansoddiad Samplau Cymunedol

Ers lansio WEDINOS yn 2013, mae data wedi dangos yn gyson fod sylweddau'n cael eu disodli'n eang yn y farchnad gyffuriau anghyfreithlon.

Ymhlith y 6,894 o samplau cymunedol, canfuwyd 211 o sylweddau ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad. Mae Tabl 2 yn manylu ar y newidiadau yn y deg sylwedd uchaf yn y cam cyflwyno (bwriad prynu) ac ar ôl dadansoddi: sylwch nad yw hwn yn amnewidiad uniongyrchol o'r golofn dde i'r chwith.

Roedd gan samplau a ddosbarthwyd fel "anhysbys" enwau cyflwyno aneglur neu roeddent yn dod o leoliadau gofal acíwt lle nad oedd bwriad prynu wedi'i restru

Nifer	Bwriad prynu	Ar ôl dadansoddi
1	Diazepam	Diazepam
2	MDMA	Cocên
3	Cocên	Bromazolam
4	Alprazolam	MDMA
5	Anhysbys	Cetamin
6	THC	Paracetamol
7	Heroin	Caffein
8	Cetamin	Alprazolam
9	Zopiclone	Dim Cydran Actif Wedi'i Nodi
10	Pregabalin	Heroin

Tabl 2 Y sylweddau mwyaf cyffredin cyn dadansoddi (tybiedig) ac ar ôl dadansoddi (gwirioneddol)

WEDINOS


Dadansoddiad Samplau Cymunedol…parhad…

Fel yn 2022-23 a 2023-24, mae bromazolam yn dal yn uchel ar y rhestr o'r sylweddau a nodwyd amlaf, yn drydydd ar ôl diazepam a chocên, gan gael ei broffilio ar 616 o achlysuron. Er hynny, dim ond 8 gwaith y cafodd ei restru fel bwriad prynu, gan ddangos mor aml y mae'n cael ei ddefnyddio yn lle cyffuriau eraill, yn enwedig yn y farchnad bensodiasepinau anghyfreithlon.

Gellir dadlau mai'r dylanwad mwyaf yn y newid yma yw cyffredinrwydd mawr y sylweddau "anhysbys" yn y cam cyn y dadansoddiad. Ond, hyd yn oed ar ôl tynnu'r samplau hyn, dros y flwyddyn ddiwethaf, gallwn weld nad oedd 35 y cant o'r samplau a gyflwynwyd i WEDINOS gyda sylwedd wedi'i restru o dan y bwriad prynu yn cynnwys yr hyn a ddisgwyliwyd. Mae hyn i lawr o 42 y cant yn 2023-24.

Cafwyd bod rhai o'r samplau yn cynnwys y sylwedd y bwriadwyd ei brynu a sylweddau eraill; megis canfod ar ôl ei ddadansoddi fod sampl a brynwyd fel heroin yn cynnwys heroin a xylazine. Canfuwyd bod samplau eraill yn cynnwys sylwedd neu sylweddau gwahanol, er enghraifft, sampl a brynwyd fel diazepam y cafwyd ei fod yn cynnwys bromazolam a metonitasen.

Dangosir lefelau'r sylweddau ychwanegol a'r amnewidiadau yn siart 2



Siart 2: Lefelau amnewid a difwyno ymhlith samplau a gyflwynwyd i WEDINOS Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Mae'r data diweddaraf gan WEDINOS yn cadarnhau heriau parhaus yn y farchnad gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys cyffredinrwydd bensodiasepinau cryf fel bromazolam fel amnewidion, sydd yn aml yn cael eu proffilio ochr yn ochr â nitasenau, presenoldeb gweithyddion derbynyddion canabinoidau synthetig mewn fêps canabis a phresenoldeb xylazine a nitasenau o fewn y farchnad heroin.


Mae'r amnewid sylweddol yma rhwng yr hyn y bwriadwyd ei bryn a chynnwys y sylweddau gwirioneddol yn amlygu'r risgiau sy'n wynebu'r defnyddwyr, gan bwysleisio'r angen am ymdrechion parhaus i leihau niwed ac i addysgu.

WEDINOS

Mathau o Sampl Cymunedol

Ffurf y sampl

Mae WEDINOS yn gofyn am 'ffurf y sampl' ar gyfer pob sampl a gyflwynir er mwyn monitro ac adrodd ar yr amryfal fathau o sylweddau sy'n ymddangos ar y farchnad a'r gwahaniaethau posibl o ran sut maen nhw'n cael eu defnyddio.



Siart 3: Ffurfiau samplau sylweddau seicoweithredol a gyflwynwyd i WEDINOS Ebrill 2024 i Fawrth 2025


Fel yn y tair blynedd blaenorol, gwelwyd cyffredinrwydd uchel yn nifer y tabledi a gyflwynwyd. Adlewyrchir hyn yn nifer uchel y samplau a gyflwynwyd y credid mai diazepam ac alprazolam oedden nhw.

WEDINOS

Dull defnyddio a chyngor ar leihau niwed

A bwrw bod yr holl sylweddau deunydd planhigion a'r hylifau fepio yn cael eu hysmygu/fepio, cafodd gweddill y samplau (tabledi, hylifau, tabiau, gronynnau etc.) eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Y dull mwyaf cyffredin (67 y cant) oedd drwy'r geg (llyncu, 'bomio'). Mae'n debygol bod cyffredinrwydd uchel y dull drwy'r geg yn gysylltiedig â nifer uchel y cyflwyniadau a brynwyd fel bensodiasepinau, yn enwedig diazepam neu alprazolam, ochr yn ochr â chyflwyniadau zopiclone a chyffredinrwydd uchel tabledi MDMA.

Yr ail ddull defnyddio mwyaf cyffredin oedd ffroeni/sniffian, sef 18 y cant, fel y gwelir yn Siart 4



Siart 4: Dull defnyddio (samplau a gyflwynwyd ar ffurf tabled, powdr, deunydd crisialaidd, capsiwl, solid, gronynnau, papur blotio) Ebrill 2024 i Fawrth 2025

Dywedodd 5 y cant o'r rhai a ddarparodd sampl eu bod wedi chwistrellu sylweddau drwy wythïen. Mae hwn yn gynnydd o 3.5 y cant yn 2023-2025. Nododd 7 y cant a 3 y cant o unigolion ddefnydd mewngyhyrol neu isgroenol yn y drefn honno.

Cafodd samplau a chwistrellwyd eu prynu fel heroin, cocên, cetamin, nitasenau a xylazine a chafwyd eu bod yn cynnwys y rheiny.

Mae yna risg arwyddocaol o ddatblygu haint difrifol a chymhlethdodau eraill yn


gysylltiedig â chwistrellu, ni waeth beth fo'r sylwedd. Dylai unigolion sy'n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd neu sydd wedi chwistrellu yn y gorffennol gael eu profi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.



WEDINOS


Powdrau, gronynnau a deunyddiau crisialaidd

Gan ganolbwyntio ar ddull defnyddio powdrau, gronynnau a deunyddiau crisialaidd, y dull defnyddio mwyaf cyffredin oedd ffroeni/sniffian gyda 57 y cant yn nodi'r dull hwn, fel y gwelir yn Siart 5. Adroddwyd bod nifer cynyddol o samplau o'r mathau hyn wedi'u chwistrellu'n drwy wythïen. Gellir priodoli hyn i gynnydd yn nifer y samplau heroin a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Siart 5: Dull defnyddio: Powdrau

Mae risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â ffroeni/sniffian sylweddau a all fod yn gostig neu'n wenwynig a'r rheiny'n ymwneud â niwed i lwybrau aer y trwyn yn ogystal â'r posibilrwydd o drosglwyddo haint feirol a gludir yn y gwaed wrth rannu teclynnau ffroeni pan fydd yna niwed i lwybrau aer y trwyn a gwaed.



Nitasenau

Nitasenau

O fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025, cafwyd bod cyfanswm o 110 o samplau yn cynnwys nitasen(au). Cafodd opioidau 2-bensylbensimidasol, sydd gyda'i gilydd yn cael eu hadnabod fel nitasenau, eu syntheseiddio am y tro cyntaf ar ddiwedd y 1950au gan fwriadu eu defnyddio fel poenliniarwyr yn wreiddiol ond chawson nhw mo'u cymeradwyo erioed at unrhyw ddiben therapiwtig (7). Does ganddyn nhw ddim diben dynol sydd wedi'i gymeradwyo o hyd.

Maen nhw'n cael eu disgrifio hefyd fel Opioidau Synthetig Newydd a Sylweddau Seicoweithredol Newydd, ac mae nitasenau wedi bod yn cyflwyno her iechyd cyhoeddus gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf (8), gyda niferoedd cynyddol o nitasenau yn cael eu hadrodd i System Rhybuddio Cynnar Swyddfa Cyffuriau a Throseddu'r Cenhedloedd Unedig ers yr adroddiad cyntaf yn 2019 (9).

Ym mis Chwefror 2025, gyda'r gwaith casglu data ar gyfer 2024 a 2025 heb ei gwblhau'n llawn, roedd gan Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig dros Gyffuriau a Throseddu adroddiadau bod 26 o nitasenau wedi'u nodi mewn 30 o wledydd yn Ewrop, Gogledd America, Oceania, De America a De-ddwyrain Asia.

Y tro cyntaf i WEDINOS ganfod nitasen oedd mis Ebrill 2021, pan gafwyd metonitasen mewn sampl o bowdr gwyn anhysbys, a gyflwynwyd o ardal Wakefield yn Lloegr.

W018254

Date Received: 14 Apr 2021
Postcode: WF1 -
Purchase Intent: Found in taxi
Package Label: Not Stated
Sample Colour: White
Sample Form: Powder
Consumption Method: Not Stated
Self-Reported Effects: Not Stated
Sample Upon Analysis (Major): Metonitazene
Sample Upon Analysis (Minor):



Click to Enlarge

Hyd yn hyn mae WEDINOS wedi nodi 13 o nitasenau gwahanol, i fyny o wyth y llynedd: bwtinitasen, etonitasepyn, isotonitasen, isotonitasepyn, metonitasen, N-desethyl etonitasen, N-desethyl isotonitasen, N-desethyl protonitasen, N-pyrolidino isotonitasen, N-pyrolidino protonitasen, protodesnitasen, protonitasen a protonitasepyn.

Yng nghyfnod adrodd 2024 i 2025 metonitasen oedd y nitasen a nodwyd amlaf, gan gael ei nodi ar 74 o achlysuron.

O gyflwyniadau WEDINOS ac adroddiadau ehangach (10) gwyddom fod nitasenau yn cael eu canfod fwyfwy fel difwynwyr o fewn heroin, amrywiaeth o dabledi ffug (megis bensodiasepinau a phoenladdwyr) a sylweddau eraill i gryfhau'r effeithiau. Yn aml iawn nid yw'r defnyddiwr terfynol yn ymwybodol o bresenoldeb nitasen.

7) Pergolizzi J Jr, Raffa R, LeQuang JAK, Breve F, Varrassi G. Old Drugs and New Challenges: A Narrative Review of nitasenes. Cureus. 21 Mehefin 2023;15(6):e40736. doi: 10.7759/cureus.40736. PMID: 37485167; PMCID: PMC10361140

8) Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau: ACMD advice on 2-benzyl benzimidazole and piperidine benzimidazolone opioids, wedi'i ddiweddaru 29 Ionawr 2025; https://www.gov.uk/government/publications/acmd-advice-on-2-benzyl-benzimidazole-and-piperidine-benzimidazolone-opioids/acmd-advice-on-2-benzyl-benzimidazole-and-piperidine-benzimidazolone-opioids-accessible-version

9) UNODC EWA: nitasenes – a new group of synthetic opioids emerges; Chwefror 2024; https://www.unodc.org/LSS/Announcement/Details/cbec8f4c-73aa-49ee-9e2b-75620af8a910

10) Asiantaeth Troseddu Genedlaethol; National Strategic Assessment 2025 of Serious and Organised Crime; https://nationalcrimeagency.gov.uk/images/campaign/NSA/2024/NSA%202025%20Website%20-%20PDF%20Version%20v1.0.pdf

Nitasenau

Cyflwynwyd 110 o samplau i WEDINOS a'u dadansoddi ganddynt rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 a nodwyd fel rhai sy'n cynnwys nitasen. Dyna 1.4 y cant o'r holl samplau a ddadansoddwyd, i lawr o ychydig o dan 2 y cant (138 allan o 7064 o samplau) yn 2023-24.

O'r 110 sampl hyn, cyflwynwyd 3.6 y cant (n=4) gyda nitasen wedi'i restru fel y bwriad prynu. Ond, mae'n bwysig cofio, gan mai gwasanaeth hunan-ddewisol yw WEDINOS, nad yw ein data ni yn ddangosydd o gyffredinolrwydd.

W062969

Date Received: 11 Mar 2025
Postcode: N16 -
Purchase Intent: Valium
Package Label: Not Stated
Sample Colour: Blue
Sample Form: Tablet
Consumption Method: Oral
Self-Reported Effects: Relaxed
Sample Upon Analysis (Major): Metonitazene, Bromazolam
Sample Upon Analysis (Minor):



Click to Enlarge

W062874


Date Received: 11 Mar 2025
Postcode: EH52 -
Purchase Intent: Heroin
Package Label: Not Stated
Sample Colour: Brown
Sample Form: Powder
Consumption Method: Intravenous
Self-Reported Effects: Euphoria, Relaxed
Sample Upon Analysis (Major): Noscapine, Paracetamol, Heroin, Caffeine, 6-MAM
Sample Upon Analysis (Minor): Thebacon, Etonitazene, Papaverine, Morphine



Click to Enlarge

Cyflwynwyd samplau yn cynnwys nitasenau o bob rhan o dir mawr Prydain.

Mewn samplau a gyflwynwyd fel diazepam y cafodd y rhan fwyaf o'r achosion o nitasenau eu proffilio, sef 40 y cant (n=44), wedyn heroin, 26 y cant (n=29), ac Ocsycodon 15 y cant (n=17) gyda 6 y cant (n=7) wedi'u canfod mewn samplau o'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol.



Siart 6: Bwriad prynu fel y'i hadroddwyd gan ddarparwyr samplau, lle proffiliwyd nitasen – 2024/25

Nitasenau

Nitasenau a'r Gyfraith (Y Deyrnas Unedig)

Ym mis Mawrth 2024, cafodd 15 o opioidau synthetig newydd (14 o nitasenau) eu rheoli fel cyffuriau Dosbarth A o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (MDA) 1971.
Y 15 opioid synthetig a reolwyd oedd brorffin, bwtonitasen, ethyleneocsynitasen, etodesnitasen (etasen), fflwnitasen, isotonitasen, metodesnitasen (metasen), metonitasen, protonitasen, n-desethyl etonitasen, n-desethyl isotonitasen, n-desethyl protonitasen, n-piperidinyl etonitasen (etonitasepin), n-pyrolidino etonitasen (etonitasepyn), ac n-pyrolidino protonitasen (11).
Ar 15 Ionawr 2025, diwygiwyd y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau i reoli pob sylwedd sy'n dod o dan y diffiniad generig ar gyfer nitasenau fel cyffuriau Dosbarth A.

Cryfder

Yn gyffredinol maen nhw'n hynod weithredol, gyda chryfderau ac effeithiolrwydd sawl analog yn fwy na ffentanyl (12). Er hynny, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am eu heffeithiau mewn bodau dynol.
Mae astudiaethau mewn anifeiliaid wedi dangos ystod eang o ran cryfder ar gyfer y grŵp hwn o sylweddau, a all amrywio hefyd gan ddibynnu ar lwybr rhoi'r cyffur.
Dangosodd adolygiad o astudiaethau cynnar ar lygod yn 2021, lle rhoddwyd nitasenau i lygod yn isgroenol, gryfderau o'u cymharu â morffin oedd yn amrywio o 1 (cryfder cyfartal) yn achos fflwnitasen i 500 gwaith yn gryfach yn ach osisotonitasen a 1,000 gwaith yn gryfach yn achos etonitasen (13).
Trefn cryfder un gyfres o nitasenau a adroddwyd oedd etonitasen >= isotonitasen > protonitasen >= metonitasen > bwtonitasen >= etodesnitasen >> 5-aminoisotonitasen = fflwnitasen > metodesnitasen.

Nitasenau a Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau

Yn 2024, cafwyd o leiaf 333 o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yn y DU oedd yn cynnwys nitasenau, a disgwylir i'r nifer hwn godi unwaith y bydd profion wedi'u cadarnhau (14).

Nitasenau a Nalocson

Fel gydag opioidau eraill, mae nalocson yn effeithiol wrth wrth-droi gwenwyndra nitasen mewn achosion gorddos, er y gall fod angen dosau uwch a/neu ailadroddus o nalocson o gofio cryfder cymharol uchel nitasenau (15).
Mae TOXBASE a Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol y DU yn awgrymu defnyddio nalocson os oes claf wedi dod i gysylltiad ag unrhyw gyffur opioid ac yn datblygu iselder anadlol, rhwystr ar y llwybr anadlu neu chwydu ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth.

11) Gohebiaeth y Swyddfa Gartref: 001/2024: The Misuse of Drugs Act 1971 (Amendment) Order 2024 and The Misuse of Drugs and Misuse of Drugs (Designation) (England and Wales and Scotland) (Amendment and Revocation) Regulations 2024; 20 Mawrth 2024 https://www.gov.uk/government/publications/circular-0012024-control-of-20-new-drugs/0012024-the-misuse-of-drugs-act-1971-amendment-order-2024-and-the-misuse-of-drugs-and-misuse-of-drugs-designation-england-and-wales-and-scotlan
12) Vandeputte MM, Van Uytfanghe K, Layle NK, St Germaine DM, Iula DM, Stove CP. Synthesis, Chemical Characterization, and μ-Opioid Receptor Activity Assessment of the Emerging Group of "Nitazene" 2-Benzylbenzimidazole Synthetic Opioids. ACS Chem Neurosci. 2021 Ebr 7;12(7):1241-1251. doi: 10.1021/acschemneuro.1c00064. Epub 2021 Mawrth 24. PMID: 33759494%
13) Ujváry et al., DARK Classics in Chemical Neuroscience: Etonitazene and Related Benzimidazoles, ACS Chemical Neuroscience 2021 12 (7), 1072-1092 DOI: 10.1021/acchemneuro.1c00037
14) Bromig, G. About new powerful analgesics and their clinical trials. Klin Wochenschr 36, 960–963 (1958). https://doi.org/10.1007/BF01486702
Asiantaeth Troseddu Genedlaethol a Swyddfa Gwelliannau ac Anghydraddoldebau Iechyd, y data wedi'i gadarnhau ar6 Mawrth 2025
15) Amaducci A, Aldy K, Campleman SL, Li S, Meyn A, Abston S, Culbreth RE, Krotulski A, Logan B, Wax P, Brent J, Manini AF; Grŵp Astudio Ffentalog Consortiwm Ymchwilwyr Tocsicoleg. Naloxone Use in Novel Potent Opioid and Fentanyl Overdoses in Emergency Department Patients. JAMA Netw Open. 2023 Awst 1;6(8):e2331264. doi: 10.1001/jamanetworkopen.2023.31264. PMID: 37642962; PMCID: PMC10466160.

Fêps THC / CBD / Canabis

Disodli CBD/THC a Chanabis gyda Gweithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig

(SCRAs) yn y Farchnad Fêps
Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cafodd WEDINOS 297 o samplau a gyflwynwyd fel rhai oedd yn cynnwys THC, CBD, neu ganabis ar gyfer fepio.
Canfuwyd bod 39% o'r samplau hyn (n = 117) yn cynnwys un neu fwy o weithyddion derbynyddion canabinoidau synthetig (SCRAs) yn lle hynny.

Labelu twyllodrus mewn Cynhyrchion Fepio Anghyfreithlon

Dadansoddodd astudiaeth gan Craft et al. saith o gynhyrchion fepio wedi'u selio, o ffynonellau anghyfreithlon, a werthwyd fel cynhyrchion canabis. Roedd tystysgrif dadansoddi yn cyd-fynd â'r fêps hyn a honno'n dweud bod pedwar o ganabinoidau lled-synthetig yn bresennol.

- Hecsahydrocanabinol (HHC)
- Hecsahydrocanabifforol (HHC-P)
- Tetrahydrocanabifforol (THC-P)
- Ester asetad tetrahydrocanabinol (THC-O)

Er hynny, datgelodd dadansoddiad yn y labordy fod pob un o'r saith sampl mewn gwirionedd yn cynnwys SCRA, nid y canabinoidau a restrwyd (16).

SCRAs

Ar hyn o bryd, SCRAs yw'r grŵp mwyaf o sylweddau seicoweithredol newydd (NPS). Mae'r term "canabinoidau synthetig" yn cyfeirio at bob cyfansoddyn synthetig sy'n rhwymo i un neu'r ddau o'r derbynyddion canabinoidau sy'n hysbys: CB1 a CB2.
Yn wahanol i tetrahydrocanabinol (THC), sy'n gweithredu fel gweithydd rhannol yn y derbynnydd CB1, mae'r mwyafrif o SCRAs yn weithyddion llawn gydag affinedd rhwymo llawer uwch. Mae hyn yn arwain at actifadu derbynyddion llawer cryfach a mwy hirfaith na'r hyn a gynhyrchir gan ganabis.
Mae canabis naturiol yn cynnwys dros 100 o ganabinoidau, gan gynnwys THC a chanabidiol (CBD), a all addasu effeithiau ei gilydd a lleihau niwed posibl. Ar y llaw arall, mae cynhyrchion sy'n cynnwys SCRAs fel arfer yn cynnwys dim ond un neu ychydig yn unig o gyfansoddion synthetig, yn aml heb gyfryngau cymedroli fel CBD, gan gyfrannu at eu heffeithiau anrhagweladwy a mwy gwenwynig.
Cymharodd astudiaeth garfan ôl-weithredol o gyflwyniadau gwenwyndra acíwt i ysbytai yn Ewrop (2013–2020) ganlyniadau amlygiad unigol i ganabis ag amlygiad unigol i SCRAs. Canfu'r astudiaeth fod gan gleifion oedd wedi'u hamlygu i SCRAs gyfraddau ystadegol arwyddocaol uwch o'r canlynol:

- Cysgadrwydd
- Coma
- Cynnwrf
- Ffitiau
- Bradycardia

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos y risgiau iechyd acíwt ehangach sy'n gysylltiedig â defnyddio SCRAs o'u cymharu â chanabis naturiol (17).


16) Craft S, Sunderland P, Millea MF, Pudney CR, Sutcliffe OB, Freeman TP. Detection and quantification of synthetic cannabinoids in seven illicitly sourced disposable vapes submitted by an individual presenting to a UK drug and alcohol service. Addiction. 2025 Maw;120(3):549-554. doi: 10.1111/add.16671. Epub 2024 Sep 10. PMID: 39256058; PMCID: PMC11813733.
17) Waters ML et al. Clinical effects of cannabis compared to synthetic cannabinoid receptor agonists (SCRAs): a retrospective cohort study of presentations with acute toxicity to European hospitals between 2013 and 2020. Clin Toxicol (Phila). 2024 Meh;62(6):378-384. doi: 10.1080/15563650.2024.2346125. Epub 2024 Meh 27. PMID: 38934347.

Fêps THC / CBD / Canabis

Gan ddibynnu ar y sylweddau a llwybr rhoi'r cyffur, gall SCRAs ddechrau'n gyflymach a chael effeithiau hirach na chanabis.

Fepio SCRAs (yn fwriadol…neu'n anfwriadol)

Mae fepio SCRAs yn cynhyrchu effeithiau cyflym a phwerus iawn. O'u hanadlu i mewn, mae SCRAs mewn hylifau fepio yn cael eu hamsugno bron yn syth trwy'r ysgyfaint, gan fynd i'r llif gwaed yn uniongyrchol ac osgoi metaboledd pàs cyntaf. Mae hyn yn arwain at feddwdod cyflym a dwys.
O'i gymharu ag ysmygu, mae fepio yn aml yn darparu dos uwch fesul pwff, gan roi fawr ddim amser neu
adborth synhwyraidd i'r defnyddwyr gael addasu eu cymeriant—gan gynyddu'r risg o orddos.
Mae yna dystiolaeth gynyddol bod cetris fepio sy'n cael eu prynu ac sydd wedi'u labelu fel rhai sy'n cynnwys canabis yn cynnwys SCRAs cryf yn lle hynny. Yn aml, mae'r sylweddau hyn yn cael eu defnyddio'n ddiarwybod, ac maen nhw wedi'u cysylltu â sgil-effeithiau sydyn, gan gynnwys crychguriadau'r galon, fertigo, a chyfogi (17).
I gloi, mae fepio SCRAs yn darparu'r sylweddau hyn yn fwy effeithlon—ac yn fwy peryglus—nag ysmygu. Mae'r effeithiau'n dechrau'n gyflym ac yn ddwys, yn aml yn digwydd cyn i'r defnyddiwr fod yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.
Gan nad yw fepio'n caniatáu fawr ddim rheolaeth, mae'r risg o orddos gryn dipyn yn uwch. O ganlyniad, mae'r defnyddwyr yn wynebu risg uwch o sgil-effeithiau acíwt, sy'n amrywio o argyfyngau iechyd meddwl i gymhlethdodau cardiofasgwlaidd difrifol.



MDMB-4en-PINACA

Mae MDMB-4en-PINACA yn weithydd derbynnydd canabinoid synthetig cryf (SCRA) sy'n perthyn i'r teulu indasol-3-carbocsamid. Mae'n rhan o genhedlaeth newydd o SCRAs sydd wedi'u cysylltu â sgil-effeithiau difrifol, gan gynnwys gwenwyndra acíwt ac aflonyddwch seiciatrig.

Mae gan MDMB-4en-PINACA affinedd rhwymo uchel iawn ar gyfer derbynyddion CB1 ac mae'n gryf mewn crynodiadau isel iawn (18).

Oherwydd ei gryfder uchel a'i weithgaredd gweithydd llawn, mae'n cario risg uchel o orddos, a all achosi symptomau difrifol fel crychguriadau calon cyflym, ffitiau, rhithwelediadau, a seicosis (19).

Yn y DU, mae MDMB-4en-PINACA wedi'i ddosbarthu fel sylwedd Dosbarth B dan reolaeth o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

17) Altintas M, Inanc L, Oruc GA, Arpacioglu S, Gulec H. Clinical characteristics of synthetic cannabinoid-induced psychosis in relation to schizophrenia: a single-center cross-sectional analysis of concurrently hospitalized patients. Neuropsychiatr Dis Treat. 2016 Awst 2;12:1893-900. doi: 10.2147/NDT.S107622. PMID: 27536110; PMCID: PMC4977070.
18) Heal DJ, Gosden J a Smith SL (2024) A critical assessment of the abuse, dependence and associated safety risks of naturally occurring and synthetic cannabinoids. Front. Psychiatry 15:1322434. doi: 10.3389/fpsyt.2024.1322434
19) Gitto, L., Wadsworth, T., Isenschmid, D., ac Arunkumar, P. (2024). MDMB-4en-PINACA–Related Deaths in Cook County Jail: Awareness and Preventive Measures. American Journal of Forensic Medicine & Pathology, July 2024.

Bensodiasepinau



Mae bensodiasepinau yn ddosbarth o gyffuriau seicoweithredol a ragnodir yn eang ac a ddefnyddir i reoli pryder, anhunedd, ffitiau a sbasmau yn y cyhyrau.

Ymhlith y rhain, diazepam yw un o'r bensodiasepinau a ddefnyddir amlaf yn fyd-eang.

Er eu bod yn fuddiol yn feddygol o'u defnyddio'n briodol, mae bensodiasepinau wedi dod yn sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio. Yn y Deyrnas Unedig rydym wedi gweld marchnad ddu gynyddol ar gyfer bensodiasepinau dilys a ffug yn dod i'r amlwg.

Beth yw Bensodiasepinau?

Mae bensodiasepinau'n gweithredu trwy wella gweithgaredd derbynyddion GABA-A, gan gynyddu niwrodrosglwyddiad ataliol yn yr ymennydd, sy'n arwain at effeithiau tawelydd, ancsiolytig (yn lleihau pryder), ymlacio'r cyhyrau, a gwrthgyffylsiwn (20). Mae gan diazepam, sef bensodiasepin cynffurfiol, hanner oes hir ac mae'n cael ei ragnodi at ystod eang o gyflyrau clinigol gan gynnwys pryder, rhoi'r gorau i alcohol, ac anhwylderau sy'n cynnwys ffitiau.

Diazepam

Nodweddir diazepam gan hanner oes dileu cymharol hir—hyd at 48 awr—a phresenoldeb metabolion gweithredol sy'n ymestyn ei effaith (21). Mae diazepam yn cael ei ragnodi i'w gymryd drwy'r geg,
yn fewnwythiennol neu'n rhefrol, ac mae ei ddefnydd clinigol yn cael ei gymedroli ar sail ei botensial ar gyfer dibyniaeth a diddyfnu, a all fod yn ddifrifol os rhoddir y gorau i'r cyffur yn sydyn (22).

Cyffredinolrwydd Defnyddio Bensodiasepinau yn y DU

Mae bensodiasepinau yn dal ymhlith y meddyginiaethau seicotropig a ragnodir amlaf yn y DU. Yn ôl data NHS Digital, dosbarthwyd tua 7.2 miliwn o bresgripsiynau bensodiasepinau yn Lloegr yn unig yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Mae diazepam yn ffurfio cyfran sylweddol o'r presgripsiynau hyn oherwydd ei gymwysiadau clinigol eang (23).
Er hynny, mae defnyddio bensodiasepinau yn ymestyn y tu hwnt i feddyginiaeth ar bresgripsiwn; mae defnydd a chamddefnydd anghyfreithlon yn gyffredin.

Cyffredinolrwydd Defnyddio Bensodiasepinau'n Anghyfreithlon

Yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr am y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2024, dywedodd tua 2.8 y cant o oedolion 16 i 59 oed eu bod wedi defnyddio tawelyddion yn ystod eu hoes (nid yw data CSEW yn nodi bensodiasepinau ar wahân yn uniongyrchol; yn hytrach, mae'n nodi categorïau ehangach fel "tawelyddion a llonyddwyr"), gyda defnydd y llynedd wedi'i nodi ar 0.4 y cant (24).

20) Longo, LP, a Johnson, B. (2000). Addiction: Part I. Benzodiazepines—side effects, abuse risk and alternatives. American Family Physician, 61(7), 2121-2128.
21) Mandrioli, R., Mercolini, L., & Raggi, M. A. (2008). Benzodiazepine metabolism: an analytical perspective. Current Drug Metabolism, 9(8), 827-844.
22) Lader, M. (2011). Benzodiazepines revisited—will we ever learn? Addiction, 106(12), 2086–2109.
23) NHS Digital (2023). Prescriptions Dispensed in the Community – England, 2021/22.
24) Swyddfa Ystadegau Gwladol, Drug misuse in England and Wales: year ending March 2024, Crime Survey for England and Wales, 12th December 2024; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2024

Bensodiasepinau

Mae Asiantaeth Cyffuriau'r Undeb Ewropeaidd (EUDA) yn dweud bod yna farchnad ar gyfer bensodiasepinau newydd ac anghyfreithlon yn Ewrop, gyda bensodiasepinau newydd a heb eu rheoli yn dal ar gael mewn mwy na dwy ran o dair o wledydd Ewrop. Mae argaeledd a hygyrchedd amrywiaeth o sylweddau yn cyfrannu at fwy o niwed, er nad ydym yn gwybod eu graddfa lawn (25).

Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Bensodiasepinau yn y DU

Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fod 512 o farwolaethau yn gysylltiedig â gwenwyn cyffuriau yn cynnwys bensodiasepinau wedi'u cofrestru yn 2023 yng Nghymru a Lloegr. Mae marwolaethau sy'n cynnwys bensodiasepinau wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, gan godi o 342 a gofrestrwyd yn 2013.

Ers 2014, yn sgil cyflwyno etizolam, mae SYG hefyd wedi dangos cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â bensodiasepinau newydd cryf, yn ogystal â'r sylweddau dethol a restrir, gydag etizolam, flualprazolam a flubromazolam wedi'u cofnodi'n benodol o fewn yr adran bensodiasepinau a grŵp analogau bensodiasepinau ehangach a gofnodwyd o dan Sylweddau Seicoweithredol Newydd (26).

Y Farchnad Bensodiasepinau Anghyfreithlon yn y DU

Mae'r DU wedi gweld marchnad anghyfreithlon gynyddol ar gyfer bensodiasepinau, yn enwedig diazepam a'i analogau. Mae'r farchnad hon yn cael ei thanio gan ddargyfeirio presgripsiynau, cynhyrchion ffug, a gwerthiannau ar-lein trwy'r rhyngrwyd dywyll. Mae camddefnyddio cynyddol yn arbennig o amlwg ymhlith pobl sy'n defnyddio cyffuriau a'r rhai sydd â hanes o ddibyniaeth ar sylweddau.

Amnewidiadau Cyffuriau yn y Farchnad Diazepam Anghyfreithlon

Un nodwedd hollbwysig ar y farchnad diazepam anghyfreithlon yn y DU yw amnewid tabledi diazepam dilys â bensodiasepinau eraill neu analogau bensodiasepin, yn aml heb yn wybod i'r defnyddiwr. Mae'r amnewidion hyn yn cynnwys sylweddau fel alprazolam, bromazolam, ethylbromazolam, etizolam, clonazepam, a clonazolam, sy'n wahanol o ran cryfder, dechrau a hyd o'u cymharu â diazepam.

Ers 2023 mae WEDINOS hefyd wedi bod yn adrodd ar bresenoldeb nitasenau mewn tabledi a gyflwynwyd fel diazepam neu bensodiasepinau eraill. Nid bensodiasepinau yw nitasenau ond maent yn perthyn i ddosbarth ar wahân o opioidau synthetig sydd heb gysylltiad strwythurol â diazepam nac unrhyw gyffur sy'n deillio o bensodiasepin. Mae eu presenoldeb yn peri pryder gan eu bod yn sylweddol gryfach na morffin ac opioidau cyffredin eraill ac yn gysylltiedig â risg uwch o orddos a marwolaeth (27).

25) Asiantaeth Cyffuriau'r Undeb Ewropeaidd, European Drug Report 2025: Trends and Developments, Mehefin 2025; https://www.euda.europa.eu/publications/european-drug- report/2025_en
26) Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), wedi'i ryddhau 23 Hydref 2024, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2023 registrations
27) Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, Datganiad i'r Wasg, 15Awst 2024; https://nationalcrimeagency.gov.uk/news/there-has-never-been-a-more-dangerous-time-to-take- drugs-says-national-crime-agency-as-annual-threat-assessment-is-published

Bensodiasepinau

WEDINOS: Samplau a gyflwynwyd fel Diazepam2024-2025

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31Mawrth 2025, cafodd WEDINOS 1,532 o samplau a gyflwynwyd fel diazepam (cynnydd o 1,402 yn 2023-24). O fewn y samplau hynny nodwyd 58 o sylweddau, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad (cynnydd o 40 y llynedd), gyda 77 o samplau wedi'u proffilio fel rhai nad oeddent yn cynnwys unrhyw gyfansoddion gweithredol.

Diazepam oedd y sylwedd a nodwyd amlaf, gan gael ei broffilio mewn 59 y cant (n=903) o'r samplau hyn, ac wedyn y bensodiasepin newydd, bromazolam.


Proffiliwyd Bromazolam mewn 26 y cant (n=384) o samplau a gyflwynwyd fel diazepam, ac mewn 43 o samplau o'r rhain fe gafodd bromazolam ei nodi ochr yn ochr â'r nitasen metonitasen, a bromazolam ochr yn ochr ag N-desethylprotonitasen, protonitasen.

Mae Bromazolam yn thienotriasoladiasepin (sy'n perthyn yn agos i alprazolam a flubromazolam). Cafodd bensodiasepinau newydd cryf eraill, etizolam, ethylbromazolam a clonazolam eu

nodi mewn 5 y cant o'r samplau a gyflwynwyd fel diazepam. Mae'r holl sylweddau hyn yn fwy

cryf na diazepam ac mae ganddyn nhw amser dechrau a hyd gwahanol o ran eu heffeithiau.

Fel y soniwyd uchod, proffiliodd WEDINOS hefyd bresenoldeb nitasenau mewn samplau a gyflwynwyd fel diazepam. Roedd ychydig dros 3 y cant yn cynnwys nitasen(au), proffiliwyd 3 y cant (n=43) fel rhai oedd ynn cynnwys metonitasen ochr yn ochr â bromazolam, a phroffilwyd un sampl fel un oedd yn cynnwys N-desethylprotonitasen, protonitasen a bromazolam.



Siart 7: Sylweddau a broffiliwyd mewn samplau a gyflwynwyd i WEDINOS fel diazepam 2024-2025

Bensodiasepinau

Gwahaniaethau Rhwng nitasenau a Diazepam
Ffarmacoleg: Mae diazepam yn gweithredu fel modiwlydd alosterig positif ar gyfer derbynyddion GABA-A, gan gynhyrchu tawelydd, ancsiolysis, ac ymlacio'r cyhyrau. Mae nitasenau'n gweithredu'n bennaf ar y derbynyddion mw-opioidau, gan gynhyrchu analgesia opioid cryf a gostwng cyflymder anadlu.

Cryfder: Mae nitasenau yn opioidau hynod bwerus, tra bo effeithiau diazepam yn ysgafnach ac yn bennaf yn lleddfu pryder ac yn tawelu.

Risgiau: Er bod y ddau ddosbarth o gyffuriau yn lleihau gweithgarwch y system nerfol ganolog, mae nitasenau yn peri risg uwch o ostyngiad angheuol yng nghyflymder yr anadlu, yn enwedig o'u cymysgu heb yn wybod i'r defnyddiwr ag iselyddion eraill fel bensodiasepinau (fel bromazolam) neu alcohol. Mae diazepam yn fwy cysylltiedig â risg o gymryd gorddos wrth ddefnyddio nifer o gyffuriau.

Deddfwriaeth y DU ar Bensodiasepinau a'u Hanalogau
Yn y DU, mae llawer o bensodiasepinau, gan gynnwys diazepam, wedi'u dosbarthu fel sylweddau Dosbarth C dan reolaeth o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ac fe'u rhestrir yn Atodlen 4, Rhan 1 o Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001.

Er hynny, nid oedd llawer o analogau newydd yn cael eu rheoli'n benodol o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau ar y dechrau. Mewn ymateb, mae llywodraeth y DU wedi ehangu'r rhestr o sylweddau dan reolaeth yn raddol i gynnwys sawl bensodiasepin newydd (er enghraifft, cafodd etizolam ei gynnwys yn 2017).

Beth yw ystyr: Cymhariaeth Cryfder, Dechrau a Hyd
Mae cryfder yn adlewyrchu grym cymharol effaith pob cyffur ar ddosau cyfatebol. Mae gwybod pa sylwedd rydych chi'n ei gymryd yn hanfodol er mwyn rheoli'r cryfder. Er hynny, gan fod lefelau arwyddocaol o amnewid sylweddau yn y farchnad anghyfreithlon o hyd, ni fydd llawer o ddefnyddwyr yn ymwybodol o ba sylwedd maen nhw'n ei gymryd; gyda'r cryfder amrywiol hwn ceir risg uwch o orddos.

Mae dechrau'r gweithredu yn cyfeirio at yr amser y mae'n ei gymryd i effeithiau'r cyffur gychwyn ar ôl ei gymryd. Mae'r rhan fwyaf o'r bensodiasepinau hyn yn dechrau'n gyflym (15–30 munud), yn enwedig alprazolam, bromazolam, ac etizolam, a all arwain at feddwdod yn gyflymach.
Mae hyd yr effeithiau yn disgrifio pa mor hir y mae effeithiau'r cyffur yn parhau. Mae gan diazepam a clonazepam gyfnodau cymharol hir (hyd at 24 a 50 awr, yn y drefn honno), a all arwain at dawelu'r defnyddiwr am gyfnod hirfaith ac at groniadau yn sgil eu defnyddio dro ar ôl tro. Ar y llaw arall, mae cyffuriau sy'n weithredol am gyfnod byrrach, megis alprazolam, yn tueddu i ddiflannu o fewn 6–12 awr ond fe allan nhw achosi symptomau diddyfnu yn gynt.

Mae'r gwahaniaethau hyn o ran ffarmacocinetig a chryfder yn cyfrannu'n arwyddocaol at anrhagweladwyedd a pheryglon defnyddio bensodiasepinau anghyfreithlon. Mae unigolion sy'n cael eu hamlygu i analogau hynod gryf neu gyffuriau amnewid sydd â chynnwys anhysbys yn wynebu risgiau uwch o gymryd gorddos anfwriadol, cael eu tawelu'n ddifrifol, a syndromau diddyfnu cymhleth, sydd i gyd yn dod â heriau mawr i wasanaethau iechyd y cyhoedd a gwasanaethau lleihau niwed.

O gofio'r cymhlethdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r farchnad bensodiasepinau anghyfreithlon yn y DU, mae gwasanaethau profi cyffuriau yn hanfodol ar gyfer lleihau niwed. Drwy ddadansoddi samplau oddi wrth y defnyddwyr terfynol a lledaenu gwybodaeth gywir am gynnwys y cyffuriau, eu cryfder a'u risgiau, gall WEDINOS helpu:

- i leihau niwed drwy rybuddio'r defnyddwyr am amnewidiadau peryglus.
- i hysbysu darparwyr gofal iechyd a llunwyr polisi er mwyn ymateb ac ymyrryd yn amserol.
- i ategu arferion defnyddio mwy diogel ac annog ymgysylltiad â gwasanaethau dibyniaeth.

Yng nghyd-destun marchnad bensodiasepinau anghyfreithlon anrhagweladwy a chynyddol, mae llwyfannau gwirio fel WEDINOS yn offeryn iechyd cyhoeddus hanfodol, gan wella diogelwch ac o bosibl leihau afiachedd a marwolaethau ymhlith pobl sy'n defnyddio cyffuriau.